Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Beach House**

**37 Marine Drive**
**Y Rhyl**
**LL18 3AY**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Beach House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Louise McCabe-Allen |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 04 Awst 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng y plant a'r staff. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r rhai hynny sy'n gofalu amdanynt yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Maent yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu profiadau chwarae a dysgu. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd priodol i gyfarwyddo eu chwarae a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel. Gall y plant ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain ac maent yn datblygu eu hannibyniaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl o ran cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r staff yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn trefnu profiadau chwarae a dysgu priodol ar eu cyfer.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n rhesymol dda y tu mewn. Mae angen gwella'r ardal chwarae awyr agored er mwyn creu canlyniadau gwell i'r plant. Mae'r teganau, yr adnoddau a'r dodrefn yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr ac maent yn datblygu cyfleoedd i'r plant ymgysylltu â'u cymuned leol er mwyn gwella eu sgiliau cymdeithasol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u profiadau chwarae a dysgu. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn mwynhau dilyn eu diddordebau eu hunain a gwneud dewisiadau am yr eitemau y maent eisiau chwarae â nhw. Er enghraifft, roedd yn plentyn yn siarad ag aelod o'r staff am ei degan cwningen meddal ac yn gwenu wrth ddweud '*It will go for a sleep later'.* Yn ystod amser stori, roedd y plant yn siarad yn llawn cynnwrf am y ffaith bod gan y lindysyn boen yn ei fol, ac yn dweud wrth eu ffrindiau beth y maent yn ei wneud pan fydd ganddyn nhw boen yn eu bol. Mae'r plant yn gofyn yn gwrtais am ragor o fwyd neu ddiod yn ystod amseroedd bwyd, ac mae'r staff yn ymateb yn brydlon.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo. Adeg newid ei gewyn, gwelsom blentyn a oedd wedi ymlacio ac yn teimlo'n gyfforddus; roedd yn mwynhau parablu â'r aelod o staff a chael maldod ar ôl cael ei newid.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dathlu eu cyflawniadau â'r staff drwy roi pawennau llawen i'w gilydd. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn eistedd wrth y bwrdd yn hyfryd ac yn ymddwyn yn gwrtais. Maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, yn ystod amser crefft, roedd y plant yn rhannu'r deunyddiau crefft ac yn cymryd eu tro i archwilio'r eitemau gaeafol yn yr hambwrdd archwilio.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn cyfarwyddo eu chwarae'n dda. Mae'r plant yn mwynhau ymarfer eu sgiliau llenwi ac arllwys. Er enghraifft, cymerodd blentyn ei amser i lenwi cynwysyddion bach â reis a phasta, gan wedyn siarad â'r staff am y trymaf a'r ysgafnaf. Mae'r plant yn mwynhau ymarfer eu sgiliau lliwiau a rhif wrth chwarae. Maent yn enwi lliw'r cychod bach yn gywir ac yn cyfrif sawl oren oedd i'w gweld yn y llyfr stori. Maent yn mwynhau'r profiad synhwyraidd o gymysgu blawd a dŵr i greu past. Roedd gan un o'r plant ddiddordeb yn teimlo'r past gludiog rhwng ei fysedd. Wrth chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn mwynhau datblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach, gan wibio i lawr y llithren, pedlo eu beiciau ac ymarfer cicio pêl-droed.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio eu cyllyll, ffyrc a llwyau yn fedrus yn ystod amseroedd bwyd i fwydo eu hunain. Gall y plant gymryd eu hamser i orffen eu pryd. Roedd un plentyn yn teimlo'n gyfforddus yn aros wrth y bwrdd i fwyta ei fwyd ar ôl i'w ffrindiau orffen. Maent yn dysgu sut i wneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cefnogi'r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac yn ymateb mewn ffordd gyson ac amserol i'w ceisiadau. Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn cofnodi presenoldeb y plant yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael, ond nid ydynt yn cofnodi eu hegwylion. Maent yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw mewn modd cadarnhaol. Mae'r staff yn darparu prydau iach a gall y plant ddewis llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Maent yn annog y plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae allan yn yr awyr iach. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r staff yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw feddyginiaethau a gaiff eu rhoi, ond ni chaiff pob cofnod ei gydnabod gan y rhieni a'r gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant a'r staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Maent yn cofnodi canlyniadau'r ymarfer tân er mwyn helpu i wella ymarferion yn y dyfodol. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu holl brofiadau dyddiol.

Mae'r staff yn annog y plant i gydweithredu ac i fod yn garedig i'w ffrindiau. Maent yn cynnig amgylchedd cynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd eu hangen. Mae hyn yn creu awyrgylch cyfforddus a hapus. Mae'r staff yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob plentyn.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn arwain eu chwarae eu hunain mewn modd cadarnhaol. Mae'r staff yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r plant yn ystod eu gweithgareddau. Roeddent wedi trefnu gweithgaredd dweud stori hyfryd a gwnaethant annog y plant i ryngweithio drwy holi ac ateb cwestiynau. Roedd ffotograffau i'w gweld a oedd yn dangos y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau diddorol i wella eu hymwybyddiaeth o'u cymuned. Er enghraifft, gwneud torch pabïau ac ymweld â'r senotaff i'w chyflwyno'n barod ar gyfer Dydd Sul y Cofio, a chymryd rhan mewn menter gymunedol i ddod o hyd i'r pwmpenni a oedd wedi

cael eu cuddio yn y dref leol.  Roedd ffotograffau i'w gweld a oedd yn dangos y plant yn rhoi'r pwmpenni mewn berfa ac yn mwynhau'r profiad.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n rhesymol y tu mewn. Fodd bynnag, mae angen gwella'r ardal chwarae awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n annibynnol y tu mewn. Mae angen gwella'r ardal chwarae awyr agored. Er enghraifft, nid oedd sbwriel a dail gwlyb wedi cael eu clirio oddi ar arwyneb y maes chwarae astro, nid oedd y teganau a'r adnoddau yn drefnus ac roedd angen glanhau'r decin pren. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'r peryglon posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid oedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod y staff yn cynnal gwiriad diogelwch trylwyr o'r amgylchedd awyr agored cyn i'r plant ei ddefnyddio. Er enghraifft, gwnaethom roi gwybod i'r staff bod teganau nad oeddent yn cael eu defnyddio yng nghanol y pentwr o ddail gwlyb ac nad oedd yr hambyrddau dŵr wedi cael eu hail-lenwi â dŵr glân. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cymryd camau rhagweithiol ac wedi cyflwyno tystiolaeth ffotograffig i ddangos y gwelliannau sylweddol a wnaed ganddynt i'r ardal chwarae awyr agored er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Maent wedi cadarnhau y caiff y gwelliannau a wnaed eu cynnal, a bydd cyllid grant a drefnwyd yn eu helpu i wneud gwelliannau pellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol i roi sicrwydd i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) bod y staff yn dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch er mwyn cynnal asesiadau risg o'r amgylchedd cyn i'r plant chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn gweithredu arferion glanhau boddhaol yn yr ardal dan do. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau. Roedd y dyddiadau ar rai eitemau o gyfarpar yn y blwch cymorth cyntaf wedi mynd heibio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac wedi'u trefnu mewn ffordd syml gan ddefnyddio teganau, adnoddau a dodrefn priodol sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Mae'r ardaloedd gorffwys yn gwahodd y plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod adnoddau addas ar gael i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Maent yn sicrhau bod rhai adnoddau wedi'u hailgylchu a rhai adnoddau cynaliadwy ar gael i'r plant er mwyn meithrin eu sgiliau

synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Ar hyn o bryd, nid oes cyfleoedd i'r plant ddysgu am y byd naturiol. Cyflwynodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad eu gweledigaeth ar gyfer datblygu'r maes hwn yn yr ardal chwarae awyr agored, lle bydd y plant yn gallu plannu a thyfu blodau a llysiau a bwydo adar yn y dyfodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau gwell eu cyflawni ar gyfer y plant, ond mae angen gwella rhai meysydd ymhellach er mwyn bodloni'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi paratoi datganiad o ddiben sy'n rhoi gwybodaeth i'r rhieni a'r gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Maent yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad a'u bod yn eu rhoi ar waith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r dyddiad adolygu diweddaraf wedi'i nodi ar bob un. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth addas o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ond nid yw'r staff yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag AGC ac yn ei hysbysu am y rhan fwyaf o ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llunio adroddiad cynhwysfawr o'r adolygiad o ansawdd y gofal, gan dynnu sylw at y gwelliannau a wnaed a'u gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Casglwyd sylwadau gan y rhieni, y gofalwyr a'r plant. Fodd bynnag, ni chafodd safbwyntiau'r staff nac asiantaethau allanol eu cynnwys er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn a helpu i nodi gwelliannau a datblygiadau pellach ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau datgelu a gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol a'u bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol wedi cael ei choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff, heblaw am ffotograffau diweddar i ddilysu pwy yw'r aelod hwnnw o staff. Ers ein hymweliad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd camau ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Maent wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ar ffurf datganiad gan y staff am eu hiechyd a'u gallu i weithio yn eu rôl. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau eu bod wedi gwella templedi'r datganiad iechyd a'u bod bellach wedi cael eu cwblhau gan bob aelod o'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal trafodaethau goruchwylio ffurfiol ac arfarniadau blynyddol â'r staff er mwyn trafod a chofnodi eu lles, eu datblygiad proffesiynol, eu hymarfer a'u hanghenion hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi pryderon diogelu, ond nid ydynt yn cadw cofnod o'r canlyniad a'r camau a gweithredu a gymerwyd. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi coladu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant.

Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr fod eu plant yn hapus yn y lleoliad a bod y staff yn *"friendly and approachable"* ac yn rhoi diweddariadau dyddiol am gynnydd eu plentyn. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin â'r gymuned leol. Roedd ffotograffau o'r plant yn eu dangos yn mwynhau eu hamser yn chwarae yn eu hamgylchedd lleol ac yn ymgyfarwyddo â'r amgylchedd hwnnw er mwyn datblygu eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 37 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr ardal chwarae awyr agored yn cynnig ardal chwarae briodol sy'n ddiogel, yn lân ac yn cynnwys digon o adnoddau i'r plant ddatblygu eu sgiliau chwarae a'u sgiliau corfforol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod yr holl gofnodion am ddamweiniau, digwyddiadau ac unrhyw feddyginiaethau a gaiff eu rhoi yn cael eu dyddio mewn ffordd gyson ac yn cael eu cydnabod gan y rhieni a'r gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y pryderon am ddiogelu a gofnodwyd yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd a'r canlyniadau. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Cynnwys sylwadau gan y staff ac asiantaethau proffesiynol eraill er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn wrth ysgrifennu'r adroddiad i adolygu ansawdd y gofal. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Datblygu hyder y staff i ddefnyddio geiriau Cymraeg yn gyson drwy gydol y dydd er mwyn cynyddu defnydd y plant o'r iaith a gwella eu dealltwriaeth ohoni. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/02/2024